Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Ebrill 2017

Ar 12 Rhagfyr 2016, gosododd y Pwyllgor Busnes adroddiad, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, yn pennu dyddiad cau o 12 Mai 2017 i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a chyflwyno adroddiad arnynt a dyddiad o 14 Gorffennaf ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2.

Ar 10 Ebrill 2017, mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cytunodd y Pwyllgor Busnes i osod adroddiad diwygiedig yn newid dyddiad cau y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i 24 Mai 2017 ac yn newid y dyddiad i gwblhau trafodion Cyfnod 2 i 21 Gorffennaf 2017.